

Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Griffith Jones

Dyddiad yr arolygiad: 01/06/2026

Crynodeb

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac yn gosod cyfeiriad clir sy'n seiliedig ar werthoedd cytûn a phwrpasol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel o'i hun, y staff a'r disgyblion, ac mae bob amser yn anelu at sicrhau bod yr ysgol yn gwella.

Mae arwyddair yr ysgol, "Dysgu gyda'n gilydd", yn amlwg yn y ffordd y mae disgyblion yn cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd. Mae bron bob un o'r disgyblion yn dweud eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'u bod yn ddiogel yno.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol, sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn berthnasol, gyda ffocws cryf ar yr ardal leol.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol, gan gynnwys holi disgyblion yn bwrpasol, ac maent yn cynllunio tasgau sy'n eu hysgogi'n dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn rhoi cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol, ac mae llawer yn dibynnu gormod ar arweiniad oedolion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryf. Mae'r ysgol yn adnabod eu hanghenion yn gynnar ac yn darparu rhaglenni priodol i'w cefnogi. Mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a chynorthwyyr dysgu yn sicrhau darpariaeth gyson i'r disgyblion hyn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys eu hymwybyddiaeth foesol, gymdeithasol a diwylliannol. Mae cyfleoedd arwain, fel ysgwyddo cyfrifoldebau fel aelod o'r cyngor ysgol, yn datblygu hyder a llais disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rôl yn dda. Maent yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n gyfrifol a bod yr ysgol yn lle diogel. Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn gadarn ac yn arwain at welliannau parhaus.

Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Parhau i ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r [adroddiad llawn](#).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/08/2026